

<p style="text-align:center">Cyngor Cymuned Y Bontnewydd COFNODION CYFARFOD MISOL 1Tachwedd 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd</p>

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Emyr Williams, Peter Garlick, Geraint Strello, Ifor Dylan Williams, Mirain Llwyd Owen

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

CYFLWYNIAD GAN DANIEL GRIFFITH O CADW CYMRU'N DACLU

Cafyd cyflwyniad gan Daniel Griffith o Cadw Cymru'n Daclus. Eglurwyd sut y gallai Cadw Cymru'n Daclus fod o gymorth i sefydlu grwp casglu sbwriel yn lleol. Byddai yswiriant yn cael ei ddarparu am ddim am flwyddyn, ond yn costio £70 y flwyddyn wedyn.

Mae yna nifer o opsiynau ar gael i grwpiau cymunedol. Gallant fynd o gwmpas i gasglu sbwriel neu fabwysiadu man gwyrdd ar ran y gymuned, e.e. perllan neu darn o dir bler ac edrych ar ei ôl am y tymor hir. Gellir cael grantiau at hyn, cyn belled â bod gan y grwp cymunedol gyfansoddiad.

Bydd Daniel yn danfon manylion am y grantiau at y Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU

Wynn Roberts, Math Williams, Gwyneth Thomas

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Hydref 2018. Cynnig: Peter Garlick
Eilio: Geraint Strello

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Mae'r Cyngor Cymuned wedi danfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn cytuno ar dderbyn cynnig Cyngor Gwynedd i ddarparu gwasanaeth ieuenctid am un noson yr wythnos hyd at ddwy awr, gyda dau aelod o staff Gyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n hysbysebu am staff ar hyn o bryd.

Cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned argraffu poster i'w ddanfon o gwmpas tai yn lleol yn hysbysebu'r Clwb Ieuenctid.

Trafodwyd hefyd gael cymorth pobl ifanc sy'n astudio'r Fagloriaeth Gymraeg i wirfoddoli ar gyfer goruchwyllo'r Clwb Ieuenctid, a gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio er mwyn gweld pe byddai hyn yn bosibl.

4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Disgwylia Pwyllgor Y Ganolfan bris i osod gwresogydd ychwanegol.

Doedd dim digon o arian yng nghronfa Tesco i drwsio/uwchraddio'r goleuadau, a gobeithir gwneud y gwaith yna'n fuan.

Bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn cyfarfod yn fuan efo cynrychiolwyr y Cylch Meithrin er mwyn trafod codi'r rhent.

4.3 Cerrig yn Afon Gwyrfa

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bwriadu dechrau'r gwaith o glirio'r cerrig cyn 25 Hydref. Yn anffodus, ni ddigwyddodd hyn, ac felly rhaid aros tan ymhell ymlaen yn y flwyddyn newydd dechrau'r gwaith, gan fod yr Ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mynegwyd siom nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybod na fyddent yn llwyddo i wneud y gwaith y flwyddyn hon, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt i fynegi hyn ac i geisio dyddiad penodol pryd fydd y gwaith yn dechrau y flwyddyn nesaf.

4.4 Diogelwch Ffordd yn Llanfaglan

Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi cynlluniau ar gyfer diweddarau arwyddion a marciau ffordd yn Lôn Pant, ger Fron Goch. Cytunwyd fod yr arwyddion a'r gwelliannau'n rhai buddiol, a diolchwyd i Gyngor Gwynedd am eu paratoi.

Mynegodd y Cynghorydd Ifor Williams ei fod dal yn bryderus am oryrru drwy bentref Llanfaglan, ac nad oedd y gwelliannau a gynlluniwyd gan Gwynedd yn ymateb i hyn.

Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd fod popeth oedd yn rhesymol bosibl wedi ei wneud i sicrhau diogelwch yn Llanfaglan a gobeithir y bydd ymweliadau buan gan y fan Gan Bwyll o gymorth.

Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud y byddant yn ystyried newid i'r arwyddion ffordd yr awgrymodd y Cynghorydd Ifor Williams y dylid eu gwella neu eu gosod yn Llanfaglan ac i lawr am Y Forud ger cyffordd Lôn Morfa. Bydd Cyngor Gwynedd yn cofnodi'r gwelliannau posibl ar gynllun yn fuan.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Hydref 2018

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio Clerc £1.12

5.3 Anfoneb Wyn Williams 1820 – Glanhau cysgodfannau Bontnewydd. Tachwedd 2017 - Mawrth 2018 £327.00

5.4 Anfoneb Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd £192.00

5.5 Balans yn y Banc 1 Tachwedd 2018 £16,871.84

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Cyngor Gwynedd – Pa Wasanaethau Sy'n Bwysig i Chi?
- Aseiad Digonolrwydd Chwaraeon
- Taclo Unigrwydd
- Rhaglen Grant Dathliad Gaeaf Age Cymru
- Cau Ffordd Dros Dro – Noson Tân Gwylt

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Dileu Banciau Ailgylchu Cymunedol Bontnewydd

Cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynnodi y bydd a banciau ailgylchu cymunedol ym Montnewydd yn cael eu dileu o'r 29 Hydref ymlaen.

Mae'n debyg fod y banciau wedi eu symud bellach, ond y pryder yw fod pobl yn parhau i adael sbwriel yno gan anharddu'r safle.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt sicrhau nad oes sbwriel yn cael ei adael yno, a bod y safle yn cael ei lanhau yn ôl y gofyn.

8.2 Giat Lôn Eifion, Bontnewydd

Mae'r Clerc wedi gofyn nifer o weithiau i Gyngor Gwynedd drwsio'r giat sy'n arwain at Lôn Eifion ger y bont dros Afon Gwyrfa, ond yn parhau i ddisgwyl i'r mater gael ei weithredu.

Y Clerc i atgoffa Cyngor Gwynedd or angen i wneud y gwaith.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

1 Rhagfyr 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

